

Gwyddor Anifeiliaid

www.aber.ac.uk/cy/ibers

NEWYDDION

Hydref 2010

IBERS

Sefydliad y Gwyddorau Biolegol,
Amgylcheddol a Gwledig

Codi Adeilad Newydd

Bydd gwaith yn dechrau yn fuan ar adeilad dysgu newydd IBERS. Bydd yn cael ei adeiladu ar Gampws Penglais, gerllaw cyfleusterau eraill i fyfyrwyr Prifysgol Aberystwyth. Disgwylir i'r adeilad agor ym mis Gorffennaf 2011. Mae cynlluniau ar gyfer cyfres o ystafelloedd darlithio, labordai addysgu a swyddfeydd, ynghyd ag ardal gyffredin i gymdeithasu. Mae'r prosiect adeiladu hwn yn rhan o raglen fwy o ddatblygiadau a fydd yn gweld dau adeilad newydd i IBERS, ac sy'n debygol o gostio dros £17 miliwn.

Rhestr Cysiau

BSc

Gwyddor Anifeiliaid
Ymddygiad Anifeiliaid
Amaethyddiaeth gyda Gwyddor Anifeiliaid
Gwyddor Chwaraeon Ceffylau a Phobl
Gwyddor Ceffylau
Bioleg y Môr a Dŵr Croyw
Sŵoleg
Sŵoleg a Microbioleg

Oes gennych chi ddiddordeb?

Ffoniwch **Fay Hollick** ar **01970 621622**
Ebost: ffh@aber.ac.uk

Pencampwyr y Seibrdddefaid!

Fel rhan o fodiwl ail flwyddyn mewn bridio anifeiliaid, mae myfyrwyr Gwyddor Anifeiliaid Aberystwyth wedi bod yn cystadlu yn erbyn myfyrwyr eraill o Brifysgolion Virginia Tech a Michigan yn yr Unol

Daleithiau mewn gêm efelychu bridio defaid o'r enw CyberSheep. Amcan y gêm oedd i fyfyrwyr wneud penderfyniadau gwybodus ac effeithiol mewn rhaglen fridio anifeiliaid fferm, gan ddethol pa anifeiliaid rhithiol i fridio ohonynt a pha rai i'w gwerthu, a gweld canlyniadau'r penderfyniadau hynny dros y cenedlaethau. Yn amlwg, roedd y gêm hefyd yn cael ei defnyddio i ddysgu egwyddorion bridio anifeiliaid. Roedd rhaid i chwaraewyr osgoi mewnfridio eu preiddiau a lleihau amledd y genyn pryf cop sy'n achosi anffurfiadau difrifol i esgyrn ŵyn. Y pencampwr, a enillodd fwyaf o arian gyda'i defaid, oedd Catherine Best o Brifysgol Aberystwyth, a'i phraidd hi oedd y trydydd o ran cynyddu gwelliannau genynnol ar gyfer tyfiant. Go dda wir!



Argraff y pensaer o olwg yr adeilad newydd ar
Gampws Penglais



Buddsoddiad mawr yn ffermydd y Brifysgol


Mae dwy fferm laeth y Brifysgol ar uned Trawsgoed ar fin elwa ar fuddsoddiad ac ehangu sylweddol. Er mwyn manteisio'n llawn ar y parlwr godro saethben newydd, bydd 30 o gilfachau

newydd yn cael eu hadeiladu ar uned laeth organig Tŷ Gwyn y Brifysgol fydd yn golygu y bydd y gyr o wartheg yn cynyddu i 160 o ran nifer.

Mewn datblygiad llawer mwy dramatig ac eang, bydd 160 o gilfachau ychwanegol a pharlwr cylchol 50 bêl yn cael eu gosod yn yr uned laeth gonfensiynol yn Lodge Farm i gynyddu maint y gyr i 550 o wartheg. I gyd-fynd â'r rhain bydd tyllau silwair newydd a'r system 'golchfa storm' ddiweddaraf yn cael eu gosod i gludo slyri i uned wahanu newydd gyda'r dŵr a wahanwyd yn cael ei ailgylchu i ailadrodd y broses wacáu ar gyfnodau penodol. Hefyd bydd dyfrdwl newydd yn cael ei dorri gydag amcangyfrif o gyfnod ad-dalu o naw mis, gyda'r disgwyliad y bydd y gyrroedd yn defnyddio 40,000 litr o ddŵr bob wythnos.

Deunydd gwastraff yn halogi cig

Mae gwyddonydd ymchwil yn IBERS, sydd â gradd mewn Gwyddor Anifeiliaid o Brifysgol Aberystwyth, ar fin chwarae rhan hanfodol yn y dasg o sicrhau diogelwch cig.



Dr Michael Lee, sy'n raddedig mewn Gwyddor Anifeiliaid, Prifysgol Aberystwyth

Gall cynhyrchu bwyd ar raddfa eang arwain at halogi cynyddol, sydd yn ei dro yn gallu achosi salwch difrifol. Gwelir hyn yn rheolaidd yn y cyfryngau, fel gydag achosion o wenwyno E-coli. Mae un ffynhonnell bwysig o'r halogi hwn i'w gweld mewn lladd-dai pan fydd micro-organebau mewn deunydd gwastraff yn cyffwrdd â'r cig wrth i hwnnw gael ei brosesu. Gall yr halogi hwn fod mor fân nes ei fod bron yn amhosibl i'w ganfod. Mae Dr Michael Lee o IBERS wedi ennill grant ymchwil o £460,000 gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a phartneriaid diwydiannol i ymchwilio sut y gellir ei ganfod.

"Bydd y prosiect tair blynedd hwn yn datblygu marcwyr naturiol yn seiliedig ar gloroffyl y bydd modd eu hychwanegu i borthiant anifeiliaid. Yna caiff y cig ei sgrinio yn y lladd-dy gan ddefnyddio delweddu fflwrolau fydd yn amlygu'r marcwyr, ac yn canfod halogiad o wastraff anifeiliaid yn y cig." meddai Dr. Lee. Un o'r cwestiynau allweddol y bydd yn eu hystyried yw sut y bydd y marcwyr hyn yn cael eu rhoi i'r anifeiliaid - eu bwydo mewn porthiant dwys, mewn dŵr neu ychwanegion mwynau. Wedi hynny, bydd y system i ddelweddu'r marcwyr ar y cig yn cael ei datblygu. Mae Dr Lee o IBERS yn frwd am y gwaith: "Mae'n wych fod Prifysgol Aberystwyth a'i phartneriaid yn gweithio ar gynnyrch sydd â'r potensial i wneud gwahaniaeth gwirioneddol. Mae'r buddion posibl o'r prosiect hwn yn enfawr, i gynhyrchwyr cig, lladd-dai, archfarchnadoedd ac yn y pen draw wrth gwrs, y siopwr. Rwyf i'n hynod o falch ein bod ni'n gallu helpu i godi hyder cwsmeriaid yn y cig maen nhw'n ei brynu."

Myfyriwr y flwyddyn

Llongyfarchiadau i Katie Roberts, fydd yn graddio yn ystod haf 2010, myfyriwr y flwyddyn yn y cynllun gradd Gwyddor Anifeiliaid.

Efelychydd Ceffyl



Mae myfyrwyr Gwyddor Anifeiliaid sydd â diddordeb mewn ceffylau yn defnyddio efelychydd ceffyl i wella eu techneg, cywiro beiau wrth farchogaeth a monitro eu dosbarthiad pwysau. Mae wedi'i gynllunio fel bod y marchog yn gallu gwneud prawf dressage gan gynnwys symudiadau megis gwaith ochrol a newidiadau hedfan ac yna edrych yn ôl ar ei berfformiad ar sgrin cyfrifiadu. Caiff yr efelychydd ei ddefnyddio ar gyfer llawer o weithgareddau, gan gynnwys clinic dressage diweddar dan arweiniad Mrs Jane Goldsmith, FBHS, a Jo Pringle, Ffisiotherapydd Dynol a Cheffylol, i helpu marchogion i ganolbwyntio ar eu hystumiau. Mae'r efelychydd yn dod o Stablau Pant, Aberystwyth.

Traethodau Ymchwil mewn Gwyddor Anifeiliaid

Y Traethawd Ymchwil Israddedig yw'r darn unigol mwyaf o waith yn y radd Gwyddor Anifeiliaid, ond mae hefyd yn gyfle i fyfyrwyr ymgymryd ag ymchwil ymarferol mewn maes sy'n eu symblu. Yn aml mae syniadau'r myfyrwyr yn rhagorol, ond dyma dair enghraifft o blith llawer yn y flwyddyn ddiwethaf:

Ymchwiliad i'r graddau y mae'r cyflwr poenus dysplasia'r glun yn etifeddadwy yn y **Sbaengi Dŵr Gwyddelig**. Ffurfiad annormal o grau y glun yw dysplasia'r glun, ac mae'n gallu arwain yn y pen draw at gloffni ac arthritis yn y cymalau. Mae'n nodwedd sydd dan reolaeth llawer o enynnau, ac sydd hefyd yn cael ei effeithio gan yr hinsawdd y mae'r ci yn cael ei fagu ynddo, ac mae'r Spaengi Dŵr Gwyddelig yn tueddu i gael y cyflwr. Cafwyd rhestr o dras 8225 o gŵn gan y Gymdeithas Fridio. O'r rhain, roedd 676 set o ddata ar sgôr clun y ddau riant yn ogystal â'r ci ei hun, gan alluogi cyfrifiad o ba mor etifeddadwy yw'r cyflwr.



Spaengi Dŵr Gwyddelig

Astudiaeth arall oedd effaith iödin yn niet gwartheg beichiog ar statws imiwnedd y llo wrth gael ei eni: mae arbrofion blaenorol yn IBERS wedi dangos bod gormod o **iödin yn niet defaid beichiog** yn gallu amharu ar statws imiwnedd yr ŵyn pan gânt eu geni. Mae'r traethawd ymchwil israddedig hwn wedi dangos am y tro cyntaf fod hyn hefyd yn wir am wartheg.

Roedd trydedd astudiaeth yn holi a oes cysylltiad rhwng **iechyd a ffordd o fyw cŵn anwes a'u perchnogion**. Roedd y traethawd ymchwil dychmygus hwn ar ffurf arolwg ar-lein, a chafwyd ymateb gan 347 o bobl (a'u cŵn). Efallai nad yw'n syndod bod lefel uwch o ymarfer corff gan y perchennog, bwyta mwy o ffrwyth ac indecs más y corff is yn gysylltiedig â llai o wario ar ymweliadau â'r milfeddyg a phwysau mwy addas i'r ci.